


# Adroddiad blynyddol ar y farchnad gymwysterau: blwyddyn academiaidd 2017 i 2018 yng Nghymru

## Uchafbwyntiau

07 Chwefror 2019


**Ffigur 1: Cyfres amser tystysgrifau yn ôl math**



Ffynhonnell: (Cymwysterau Galwedigaethol) Casgliadau data Ofqual, (Cymwysterau Cyffredinol) Casgliadau data Cofrestrïadau, Cofrestrïadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Gostyngodd cyfanswm y tystysgrifau 56,120 (6.2%) i 844,690. Y corff dyfarnu â'r gyfran fwyaf o'r farchnad oedd CBAC â chyfran o 59.8% o'r farchnad, i fyny o 59.3% y llynedd.

**Ffigur 2: Cyfran o'r farchnad y tri phrif gorff dyfarnu**



Ffynhonnell: (Cymwysterau Galwedigaethol) Casgliadau data Ofqual, (Cymwysterau Cyffredinol) Casgliadau data Cofrestrïadau, Cofrestrïadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen Cymwysterau Cymru)

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig a oedd ar gael i'w dyfarnu yng Nghymru yn ystod blwyddyn academiaidd 2017-18 a nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd. Cofnodir ystadegau ar sail blwyddyn academiaidd. Cesglir data ar gymwysterau cyffredinol ar sail blwyddyn academiaidd. Cesglir data ar gymwysterau galwedigaethol ar sail blwyddyn galendr ond caiff y data hyn eu

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Ystadegau.....	4
Rhestr termau.....	11
Nodiadau cefndir.....	12

**Ystadegydd:** Mark Hogan CStat 01633 373 253 [statistics@qualificationswales.org](mailto:statistics@qualificationswales.org)

**Ymholiadau'r Cyfryngau:** Alan Morris 01633 373 216 [comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)



# CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015,<sup>1</sup> ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cymwysterau a'r mathau o gymwysterau a oedd ar gael i'w dyfarnu yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2017-18 gan gyrrff dyfarnu cydnabyddedig (cyrrff a gydnabyddir gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau). At ddiben yr adroddiad hwn, ystyrir bod blwyddyn academaidd 2017-18 yn dechrau ar ddechrau mis Medi 2017 ac yn dod i ben ar ddiwedd mis Awst 2018. Cesglir data ar gymwysterau cyffredinol ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data ar gymwysterau galwedigaethol ar sail blwyddyn galendr ond caiff y data hyn eu brasmamcanu ar sail blwyddyn academaidd (dehonglir data o fis Hydref hyd at fis Medi, gan gynnwys y misoedd hynny, fel y flwyddyn academaidd o fis Medi i fis Awst). Mae'n cynnig trosolwg o'r farchnad cymwysterau ac yn cynnig pwynt cyfeirio unigol am gyfranogwyr yn y farchnad honno.

Mae'r data a gyflwynir yn y datganiad hwn yn ymdrin â nifer y cyrrff dyfarnu, y cymwysterau rheoleiddiedig a'r tystysgrifau a ddyfarnwyd ar gyfer pob math o gymhwyster. Cyflwynir cyfran y farchnad o ran tystysgrifau hefyd ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch fesul corff dyfarnu. Cyflwynir cyfran y farchnad o ran tystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill fesul maes pwnc sector, corff dyfarnu a lefel cymhwyster.

Caiff yr adroddiad hwn ei lunio bob blwyddyn ac mae'n seiliedig yn bennaf ar wybodaeth a ddelir gennym neu a gesglir gennym gan gyrrff dyfarnu a chan y Cydbwyllgor Cymwysterau.

Noder pan fo'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gymwysterau 'galwedigaethol ac eraill', fod hyn yn golygu'r holl gymwysterau ac eithrio TGAU, UG a Safon Uwch.

Yn dilyn trefniant trosglwyddo gydag Ofqual (y rheoleiddiwr yn Lloegr), rydym bellach yn cyhoeddi ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â chymwysterau i Gymru. Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol gan Ofqual. Mae'n bosibl na fydd yr ystadegau yn y datganiad hwn yn cyfateb i'r ystadegau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan

---


<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted>

Ofqual, oherwydd cywiriadau a wnaed i'r data. Lle bo ffigurau ar gael i'r cyhoedd, fe'u cyflwynir yn gwbl gywir. Caiff y ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau eu talgrynnu i'r 5 agosaf, a chaiff gwerthoedd rhwng 1 a 4 eu dynodi â "\*". Ni chaiff y ffigurau ar gyfer nifer y cymwysterau eu talgrynnu. Mae rhagor o wybodaeth am y datganiad hwn ar gael yn y wybodaeth gefndir ac yn y tablau data sy'n ategu'r adroddiad hwn.

# YSTADEGAU

## Sawl corff dyfarnu sydd yng Nghymru?

**Ffigur 3: Cyrff dyfarnu dros amser**




Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru

Dangosodd cyfrifiad o nifer y cyrff dyfarnu cydnabyddedig ar 31 Awst 2018 ostyngiad o 10 (8.5%) i 107. Ers sefydlu Cymwysterau Cymru (21 Medi 2015), mae 26 (19.5%) yn llai o gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Gellir priodoli rhywfaint o'r gostyngiad hwn i'r ffaith nad yw cyrff dyfarnu yn weithredol gan nad oes ganddynt unrhyw ddysgwyr yng Nghymru.


## Sawl cymhwyster cymeradwy neu ddynodedig sydd yng Nghymru?

**Ffigur 4: Nifer y cymwysterau dynodedig**



Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru (cyrchwyd 13 Rhagfyr 2018)

**Ffigur 5: Nifer y cymwysterau cymeradwy**



Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru (cyrchwyd 13 Rhagfyr 2018)

Mae cymwysterau cymeradwy wedi bodloni meini prawf a gynlluniwyd yn benodol i Gymru. Mae cymwysterau dynodedig yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus. Nifer y cymwysterau dynodedig neu gymeradwy a oedd ar gael yn 2017-18 oedd 8,593, sef gostyngiad o 1,440 (14.4%). Ers 2015-16, mae nifer y cymwysterau dynodedig wedi gostwng 2,089 (19.8%) i 8,437, ac mae nifer y cymwysterau cymeradwy wedi cynyddu 54 (52.9%) i 156. Mae hyn yn cynrychioli'r nifer o gymwysterau a

gymeradwywyd neu a ddynodwyd a allai fod wedi eu tystysgrifu yn erbyn (ond nid o reidwydd) yn 2017-18.

## Sawl cymhwyster cymeradwy neu ddynodedig sydd o bob math yng Nghymru?

**Tabl 1: Cymwysterau yn ôl math**

<b>Math o Gymhwyster</b>	<b>2015-16</b>	<b>2016-17</b>	<b>2017-18</b>	
Galwedigaethol ac Eraill <sup>(1)</sup>	9,699	9,114	7,877	Mae data o gronfa ddata Cymwysterau yng
TGAU	411	381	280	Nghymru <sup>2</sup> yn dangos bod
TAG Safon Uwch	246	258	209	nifer y cymwysterau
TAG UG	243	256	207	cymeradwy neu
Prosiect	13	13	11	ddynodedig yng Nghymru
Bagloriaeth Cymru	8	8	8	wedi gostwng 1,440
Dyfarniad estynedig uwch	1	1	1	(14.4%) i 8,593. Cafodd y
Prif ddysgu	7	2	0	gostyngiad hwn ei lywio
<b>Cyfanswm</b>	<b>10,628</b>	<b>10,033</b>	<b>8,593</b>	gan ostyngiadau mewn

Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru, cyrchwyd 13 Rhagfyr 2018.

(1) Mae Galwedigaethol ac Eraill yn cynnwys: FfCCh; Cyffredinol arall; Yn gysylltiedig â galwedigaethol; AHGC; AHGP; Lefel mynediad; Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill; Sgiliau Hanfodol Cymru; Lefel Uwch; Cymhwyster galwedigaethol; Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol; Sgiliau Allweddol.


'Galwedigaethol ac Eraill' a ostyngodd 1,237 (13.6%), TGAU a ostyngodd 101 (26.5%), Safon Uwch a ostyngodd 49 (19.0%) ac UG a ostyngodd 49 (19.1%). Gellir priodoli'r gostyngiad mewn TGAU,

UG a Safon Uwch i ddiwygiadau i gymwysterau cyffredinol a'r broses o symud i ddarparwr unigol yng Nghymru.

<sup>2</sup> <https://www.qiw.wales/?lang=cy>

## Sawl tystysgrif a ddyfarnwyd yng Nghymru?

**Ffigur 6: Tystysgrifau yn ôl math o gymhwyster**



Gostyngodd cyfanswm nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd 56,120 (6.2%) i 844,690. Cafodd y gostyngiad hwn ei lywio gan ostyngiad o 48,955 (12.4%) ar gyfer cymwysterau TGAU a gostyngiad o 5,510 (6.6%) ar gyfer cymwysterau TAG.

Ffynhonnell: (Cymwysterau Galwedigaethol) Casgliadau data Ofqual, (Cymwysterau Cyffredinol) Casgliadau data Cofrestrïadau, Cofrestrïadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen Cymwysterau Cymru)

## Pwy yw'r cyrff dyfarnu mwyaf yng Nghymru?

**Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd sy'n amlgu'r pum corff dyfarnu mwyaf**

Corff Dyfarnu	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
CBAC	583,525	562,855	510,225	533,785	505,475
City & Guilds	124,840	118,025	91,805	88,630	89,640
Pearson	86,400	123,405	105,750	72,785	58,595
Highfield Qualifications	19,225	19,210	20,275	24,975	32,490
Agored Cymru	7,110	6,945	8,550	10,045	17,950
Cyrff Dyfarnu eraill	248,445	225,035	200,235	170,585	140,535
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,069,545</b>	<b>1,055,475</b>	<b>936,845</b>	<b>900,810</b>	<b>844,690</b>

Ffynhonnell: (Cymwysterau Galwedigaethol) Casgliadau data Ofqual gan gyrff dyfarnu a (Cymwysterau Cyffredinol) Casgliadau data Cofrestrïadau, Cofrestrïadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Gostyngodd nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd gan CBAC 28,310 (5.3%) ond CBAC yw'r corff dyfarnu sy'n dyfarnu'r nifer fwyaf o dystysgrifau o hyd, sef 505,475 sy'n cyfateb i 59.8% o'r holl dystysgrifau (i fyny o 59.3% y llynedd). Roedd y pum corff dyfarnu mwyaf yn gyfrifol am 83.4% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd.

## Beth yw cyfran cyrff dyfarnu yng Nghymru o'r farchnad ar gyfer cymwysterau TGAU?

**Tabl 3: Y farchnad TGAU**

Blwyddyn Academaidd	AQA	CCEA	Pearson	OCR	CBAC	Cyfanswm
2013-14	25,980	50	21,535	7,910	288,865	<b>344,340</b>
2014-15	19,895	45	14,920	7,125	294,330	<b>336,315</b>
2015-16	18,425	30	10,230	6,305	299,215	<b>334,200</b>
2016-17	13,565	20	5,545	4,355	370,805	<b>394,285</b>
2017-18	3,460	5	1,735	575	339,550	<b>345,330</b>

Ffynhonnell: Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Cyhoeddwyd 344,340 o dystysgrifau TGAU yng Nghymru, gostyngiad o 48,955 (12.4%) o dystysgrifau o gymharu â'r llynedd. Y corff dyfarnu a gyhoeddodd y nifer fwyaf o dystysgrifau oedd CBAC. Gostyngodd nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd gan CBAC 31,255 (8.4%) i 339,550. Gellir priodoli 98.3% o'r farchnad TGAU yng Nghymru i CBAC, i fyny o 94.0% y llynedd.

## Beth yw cyfran cyrff dyfarnu yng Nghymru o'r farchnad ar gyfer cymwysterau UG a Safon Uwch?

**Tabl 4: Y farchnad TAG**

Blwyddyn Academaidd	AQA	CCEA	Pearson	OCR	CBAC	Cyfanswm
2013-14	11,395	5	4,795	8,465	73,525	<b>98,185</b>
2014-15	10,775	5	4,480	7,435	72,685	<b>95,375</b>
2015-16	6,165	0	3,400	4,730	76,505	<b>90,805</b>
2016-17	2,415	0	2,285	2,160	77,115	<b>83,975</b>
2017-18	1,595	0	1,365	1,330	74,175	<b>78,470</b>

Ffynhonnell: Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Mae'r duedd ar i lawr o 2013-14 yn parhau ar gyfer nifer y tystysgrifau TAG a gyhoeddwyd. O 2013-14, mae nifer y tystysgrifau TAG a gyhoeddwyd wedi gostwng 19,720 (20.1%). Yn 2017-18, gostyngodd nifer y tystysgrifau TAG a gyhoeddwyd 5,510 (6.6%) i 78,470. O'u plith, cyhoeddwyd 74,175 gan CBAC, sef 94.5 % o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd (i fyny o 91.8%).

## Beth yw cyfran cyrff dyfarnu yng Nghymru o'r farchnad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill?

**Tabl 5: Nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd sy'n amlygu'r deg corff dyfarnu mwyaf**

Corff Dyfarnu	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
CBAC	216,935	195,360	134,175	85,755	91,605
City and Guilds of London Institute	124,840	118,025	91,805	88,630	89,640
Pearson Education Ltd	60,045	103,895	92,080	64,920	55,480
Highfield Qualifications	19,225	19,210	20,275	24,975	32,490
Agored Cymru	7,110	6,945	8,550	10,045	17,950
Qualsafe Awards	5,475	7,000	9,045	9,505	12,055
OCR	46,185	37,900	27,405	14,560	10,800
Associated Board of the Royal Schools of Music	13,200	12,480	10,795	11,310	10,480
NOCN	3,720	1,885	2,050	1,370	10,195
Coleg y Drindod Llundain	2,985	4,875	6,680	6,780	8,830
Cyrff Dyfarnu eraill	126,020	120,460	115,235	111,245	89,975
<b>Cyfanswm</b>	<b>622,755</b>	<b>623,160</b>	<b>511,420</b>	<b>422,315</b>	<b>420,665</b>

Ffynhonnell: Casgliad data Ofqual gan gyrff dyfarnu

Mae'r duedd ar i lawr o 2014-15 yn parhau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Gall newidiadau i fesurau perfformiad fod yn effeithio ar nifer y tystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i roi uchafswm o 40% o'r pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy ysgolion (Cyfnod Allweddol 4) Llywodraeth Cymru. Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â gwyddoniaeth, sy'n golygu mae dim ond cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth sy'n cyfrif. Yn flaenorol, roedd cymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol yn cyfrif hefyd<sup>3</sup>. O 2014-15, mae nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol wedi gostwng 202,495 (32.5%). Yn 2017-18, gostyngodd nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer cymwysterau galwedigaethol 1,645 (0.4%) i 420,665. Cyhoeddodd y deg corff dyfarnu â'r nifer fwyaf o dystysgrifau 339,795 o dystysgrifau (80.7% o'r cyfanswm). Cyhoeddodd CBAC 91,605 o dystysgrifau, cynnydd o 5,580 (6.8%), sef 21.8% (i fyny o 20.3%) o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd y llynedd.

<sup>3</sup> Ceir rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru yn: <https://gov.wales/docs/statistics/2016/160721-chief-statisticians-update-issue-9-cy.pdf> [Cyrchwyd 24 Ionawr 2019].



## Sawl dystysgrif ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd ym mhob maes pwnc?

**Tabl 6: Nifer y dystysgrifau Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill a gyhoeddwyd fesul maes pwnc sector**

Maes pwnc sector	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	60,300	68,320	71,855	70,570	73,205
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	12,000	19,650	18,005	13,285	6,180
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	7,450	8,425	6,535	8,100	6,850
04 Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	28,615	26,725	25,770	24,865	21,960
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	14,645	17,025	18,090	19,115	22,425
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	18,430	13,955	12,070	9,225	7,180
07 Manwerthu a Mentrau Masnachol	41,910	38,635	29,485	28,970	28,690
08 Hamdden, Teithio a thwristiaeth	15,570	19,620	16,925	16,085	15,725
09 Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a Chyhoeddi	29,565	31,325	29,030	30,105	28,395
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	240	300	255	260	135
11 Gwyddorau Cymdeithasol	30	115	120	130	390
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	10,270	12,575	12,540	13,450	10,630
13 Addysg a Hyfforddiant	5,405	4,690	3,790	3,455	4,245
14 Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	350,335	337,295	245,695	161,840	170,970
15 Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	27,990	24,495	21,260	22,855	23,680
<b>Cyfanswm</b>	<b>622,755</b>	<b>623,160</b>	<b>511,420</b>	<b>422,315</b>	<b>420,665</b>

Ffynhonnell: Casgliad data Ofqual gan gyrff dyfarnu

Yn 2017-18, y maes pwnc sector â'r nifer fwyaf o dystysgrifau oedd 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith', y cyhoeddwyd 170,970 o dystysgrifau ar ei gyfer (cynnydd o 9,130 (5.6%)), 40.6% o'r cyfanswm.

## Sawl tystysgrif ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd ar bob lefel?

**Tabl 7: Nifer y tystysgrifau Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill a gyhoeddwyd fesul lefel**

<b>Lefel y Cymhwyster</b>	<b>2013-14</b>	<b>2014-15</b>	<b>2015-16</b>	<b>2016-17</b>	<b>2017-18</b>
Lefel Mynediad	31,510	33,540	33,835	33,235	33,545
Lefel 1	125,885	108,095	85,995	63,660	58,330
Lefel 1/2	1,695	9,360	16,140	64,565	63,865
Lefel 2	338,315	318,630	246,040	166,445	144,215
Lefel 3	121,095	147,490	122,540	85,705	109,610
Lefel 4	1,805	2,320	2,560	3,535	4,845
Lefel 5	2,035	3,340	3,620	4,200	5,010
Lefel 6	245	220	550	745	870
Lefel 7	175	155	145	220	375
Lefel 8	*	0	5	*	*
<b>Cyfanswm</b>	<b>622,755</b>	<b>623,160</b>	<b>511,420</b>	<b>422,315</b>	<b>420,665</b>

Ffynhonnell: Casgliad data Ofqual gan gyrrff dyfarnu

Y lefel cymhwyster y cyhoeddwyd y nifer fwyaf o dystysgrifau ar ei chyfer yn 2017-18 oedd lefel 2, y cyhoeddwyd 144,215 o dystysgrifau ar ei chyfer, gostyngiad o 22,230 (13.4%) o gymharu â'r llynedd. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, cymwysterau lefel 2 yw 34.3% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Gall newidiadau i fesurau perfformiad a grybwyllwyd uchod fod yn effeithio ar y gostyngiad mewn tystysgrifau.

# RHESTR TERMAU

## **Safon Uwch**

Safon Uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol, y cyfeirir ati hefyd fel TAG Safon Uwch.

Cymwysterau a gaiff eu hastudio, ar ôl cymwysterau TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau, fel arfer gan ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed

sy'n dilyn cwrs astudio dwy flynedd. Maent yn cael eu defnyddio fel sail i dderbyn myfyrwyr i

addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

## **Cymeradwy**

Cymwysterau a adolygwyd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo. Fe'u rheoleiddir o dan yr Amodau Cydnabod Safonol ac unrhyw amodau cymeradwyo sy'n berthnasol.

## **Uwch Gyfrannol (UG)**

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei sefyll fel cymhwyster ar wahân.

Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch.

Yn Lloegr, ni all cymwysterau Uwch Gyfrannol gyfrannu at y Safon Uwch.

## **Corff dyfarnu**

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, gan gydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

## **Dynodedig**

Wedi'u dynodi'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed. Rhaid bodloni'r meini prawf ar gyfer dynodi. Fe'u rheoleiddir o dan yr Amodau Cydnabod Safonol.

## **TAG**

Grŵp o gymwysterau gan gynnwys Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol (UG).

## **TGAU**

Mae cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 cyffredinol

ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sail i astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

### **Maes Pwnc Sector**

System ddsbarthu ar gyfer y pwnc a astudir fel rhan o gymhwyster.

## **NODIADAU CEFNDIR**

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol<sup>4</sup> ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

### **Ffynhonnell Data**

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol a nifer y tystysgrifau ar gyfer pob math o gymhwyster cyffredinol a oedd ar gael yn ystod blwyddyn academiaidd 2017-18. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru mae'r cofrestriadau, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw.

---

<sup>4</sup> <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/>

## **Cyfyngiadau'r data**

Mae camgymeriadau posibl yn y wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;
- Bod yn wiliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

## **Cymariaethau**

O 2017-18, cyflwynodd cyrff dyfarnu ddata i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

## **Cwmpas Daearyddol**

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y tystysgrifau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017-18 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

## **Diwygiadau**

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y cyrff dyfarnu cydnabyddedig, y cymwysterau na'r tystysgrifau fel arfer yn cael eu diwygio, er y gall datganiadau dilynol gael eu diwygio er mwyn cywiro gwall.

## **Cyflawnrwydd y data**

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data mynediad i Cymwysterau Cymru ar gyfer yr holl gymwysterau rheoleiddiedig. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

## Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyflwynir eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir \* yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

## Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r farchnad cymwysterau yng Nghymru.

## Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 3 (Gorffennaf – Medi 2018) i Gymru<sup>5</sup>.
- Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2017-18<sup>6</sup>.
- Y datganiad 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>7</sup>.

---

<sup>5</sup> <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/vq-qrt-3-dec-2018/>

<sup>6</sup> <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/2-entries-and-late-entries-for-gcse-and-a-level-in-wales-2017-18-academic-year/>

<sup>7</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?lang=cy>

## **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 10 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru<sup>8</sup>.

Mae'r gofrestr QiW<sup>9</sup> yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Caiff ystadegau ar y farchnad cymwysterau yn Lloegr eu cyhoeddi gan Ofqual<sup>10</sup>.

## **Y diweddariad nesaf**

Chwefror 2020 (dyddiad dros dro).

## **Adborth gan ddefnyddwyr**

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei ddarparu drwy e-bost i [ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org)

*(h) (2019) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.*

---

<sup>8</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy>

<sup>9</sup> <https://www.qiw.wales/?lang=cy>

<sup>10</sup> <https://www.gov.uk/government/organisations/ofqual/about/statistics>